



## **Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)**

---

1. Ar 20 Medi 2010, cafodd Mesur a gafodd ei gynnig gan y Llywodraeth, 'Mesur ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.
2. Ar 21 Medi 2010, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur arfaethedig i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4, i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.
3. Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 17 Rhagfyr 2010.
4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gwblhau ei drafodion Cyfnod 2 erbyn 18 Chwefror 2011.